# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i’w hateb ar 2 Ionawr 2003

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru);** Ar 1 Rhagfyr 2002, faint o swyddi oedd yn Adran GIG Cymru Cynulliad Cenedlaethol Cymru, faint ohonynt oedd wedi’u llenwi gan weision sifil, faint oedd wedi’u llenwi gan bobl wedi’u secondio a faint ohonynt oedd yn wag. (WAQ21589) **R**

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru);** Faint o’r staff sy’n gweithio i Adran GIG Cymru y Cynulliad Cenedlaethol fydd yn cael eu trosglwyddo i’r Swyddfeydd Rhanbarthol newydd. (WAQ21590) **R**

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru);** Beth yw’r amcangyfrif o gost cyflogau ym mlwyddyn gyntaf y Ganolfan Gwasanaethau Busnes. (WAQ21591) **R**

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru);** Faint o’r rheini sydd wedi’u secondio i weithio i Adran GIG Cymru y Cynulliad Cenedlaethol fydd yn cael eu trosglwyddo i’r Ganolfan Gwasanaethau Busnes. (WAQ21592) **R**

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru);** Pa gwmnïau rheoli ymgynghorol preifat sydd wedi’u defnyddio i ddarparu gwasanaethau at bwrpas rhaglenni gwaith Adran GIG Cymru ers Ionawr 2001 a pha rai o’r cwmnïau hyn sydd â swyddfeydd yng Nghymru. (WAQ21593) **R**

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru);** Pa ganran o’r ffioedd sydd wedi’u talu i gwmnïau rheoli ymgynghorol preifat a ddefnyddiwyd i ddarparu gwasanaethau at bwrpas rhaglenni gwaith Adran GIG Cymru ers Ionawr 2001 gafodd eu talu i gwmnïau sydd â swyddfeydd yng Nghymru. (WAQ21594) **R**

## *Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Ddatblygu Gwledig a Chymru Dramor*

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar unrhyw gwtogiad yn nifer swyddogion gwenyna’r Weinyddiaeth. (WAQ21595) **W**